# HUGHES, DAVID (bu farw 1609), sefydlydd ysgol ramadeg rydd Biwmares

**Enw:** David Hughes
**Dyddiad marw:** 1609
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** sefydlydd ysgol ramadeg rydd Biwmares
**Maes gweithgaredd:** Addysg
**Awdur:** Glyn Roberts

Ganwyd ym mhlwyf Llantrisant, sir Fôn. Efallai mai ef ydyw'r David Hughes, o Sir Gaernarfon, a aned yn 1561 ac a aeth o Goleg Magdalen, Rhydychen, i Gray's Inn, 28 Ionawr 1583 (Foster, *Alumni Oxonienses*, i, 760; *Gray's Inn Admission Register*, 28 Ionawr 1582-3); y mae, serch hynny, adroddiad arall amdano (a hwnnw wedi ei seilio ar ffynonellau na cheir gafael arnynt erbyn hyn) yn awgrymu iddo gael ei eni c. 1536 ac na chafodd addysg brifathrofaol (John Morgan, *David Hughes, Founder of Beaumaris Free Grammar School ...*, 1883; gweler hefyd *Poetical Works of Richard Llwyd*, t. 21n). Ymsefydlodd yn sir Norfolk ac apwyntiwyd ef yn stiward maenor Woodrising, c. 1596. Sefydlodd y ' Free Grammar School,' Biwmares, yn 1602. Yn ei ewyllys, sydd wedi ei dyddio 30 Medi 1609, gwaddolodd yr ysgol a gwnaeth ddarpariaeth hefyd i sefydlu elusendy yn Llanerch-y-medd; yn Biwmares, fodd bynnag, yr adeiladwyd yr elusendy.

## Awdur

**Yr Athro Glyn Roberts**, (1904 - 1962)

## Ffynonellau


*David Hughes, M. A., and his free grammar school at Beaumaris an historical essay* (Bangor 1864), 1864; ailgyhoeddwyd (gol. Vaughan Bowen) 1933

E. Madoc Jones, 'The Free Grammar School of Beaumaris,' yn *Trafodion Cymdeithas Hynafiaethwyr a Naturiaethwyr Môn*, 1922

*Reports of the Historical Manuscripts Commission*, Gawdy MSS. Tenth Report, Appendix II, 67, 68, 96

*Report of the Charity Commission*, rhan I, cyf. xli, 725

J. E. Griffith, *Pedigrees of Anglesey and Carnarvonshire Families* (1914), 52

*NLW MS* 1527 (Kinmel MS. 27)


## Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: David Hughes

## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20203339


**Dyddiad cyhoeddi:** 1953



**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu